## Tudalen Cychwynnol

# Cyngor Sir Y Flint

## *Cais am Daliad Dewisol Tai - Tynnu Costau*

Os hoffech help neu gyngor mewn cysylltiad â'r ffurflen hon, dylech:

Ffonio: 01352 704848. Mae'r llinell gymorth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener 8.30am - 5pm.

E-bostiwch: benefits@flintshire.gov.uk

Swyddfeydd Connects Lleol cyfeiriadau ac oriau agor;

Connects Bwcle
Llyfrgell Bwcle
Y Caeadle
Bwcle
Llun - Gwener 9.30am - 5pm.

Connects Cei Connah
Gyrru Gwepra
Cei Connah
Llun - Gwener 9am - 5pm.

Connects Fflint
Eglwys Y Stryd
Fflint
Llun - Gwener 8.30am - 5pm.

Connects Treffynnon
Hen Neuadd Y Dref
Strd Fawr
Treffynnon
Llun - Gwener 9am - 5pm.

Connects Yr Wyddgrug
Llyfrgell Yr Wyddgrug
Ffordd Iarll
Yr Wyddgrug
Llun - Gwener 9.30am - 5pm.

### At Ddefnydd Swyddogol yn Unig

Enw ffeil y Ffurflen: Cais am Daliad Dewisol Tai - Tynnu Costau (1.0).wdf

Cyfeirnod Ffurflen: ,

Teitl:

Enw Cwsmer:

DOB:

YG:

FFON:

Ebost:

Cyfeiriad y Cwsmer:

Notes: V1

Date Form Started: 05/01/2024 8:49:32 AM

Date of E-signing:

Date Submitted:

Data Validation Ref:

Occupancy type:

Advisor Name (who started form): Anonymous

Advisor Department: Self-Service

Claim Num / Ref:

CTax Num / Ref:

## Nodiadau Arweiniol ar Daliad Dewisol Tai

Darllenwch y nodiadau arweiniol hyn cyn llenwi eich ffurflen gais.

### Sut i ddefnyddio'r ffurflen ar-lein hon

Mae'r ffurflen hon yn defnyddio'r dechnoleg rhyngrwyd ddiweddaraf i'w gwneud yn hawdd ac yn gyfleus i chi lenwi a chyflwyno eich cais ar-lein. Bydd y ffurflen yn eich helpu a'ch tywys drwy eich cais er mwyn sicrhau eich bod yn llenwi'r ffurflen yn gywir. Ar ôl ei agor ar y rhyngrwyd, gallwch ei lenwi a'i arbed oddi-ar-lein. Dim ond pan fyddwch eisiau cyflwyno'r ffurflen wedi'i lenwi y mae gofyn i chi ailgysylltu â'r rhyngrwyd.

Gallwch symud rhwng tudalennau drwy ddefnyddio'r botwm Nesaf ac Yn Ôl, neu symud yn uniongyrchol i dudalennau trwy ddefnyddio'r ddewislen Dewiswch Dudalen.

**Dyddiadau:** Dylai pob dyddiad ar y ffurflen hon gael eu cofnodi yn y fformat DD/MM/BBBB, a dylech nodi rhifau gan ddefnyddio eich bysellfwrdd wedi'i wahanu gan y symbol.

**Cyflwyno'r ffurflen:** Pan fyddwch wedi llenwi'r ffurflen ac wedi cywiro unrhyw wallau, trwy wasgu'r botwm Anfon byddwch yn anfon y data dros y rhyngrwyd atom ni, fel y gallwn ddechrau prosesu eich ffurflen ar unwaith.

? Bydd eiconau helpu ar gael yn y ffurflen hefyd i'ch helpu trwy'r cais, am fwy o help wrth ddefnyddio'r ffurflen hon, cliciwch ar y botwm **Help** ar y panel rheoli ar y chwith.

### Beth yw Taliadau Dewisol Tai?

Dyma gymorth ychwanegol i bobl sy'n derbyn budd-dal tai ac **Credyd Cynhwysol Costau Tai Elfen** ac sydd angen cymorth pellach i gwrdd â'u taliadau rhent. Ni fwriedir i'r rhain fod yn daliadau parhaus yn y tymor hir; maent yn cael eu dyfarnu ar sail tymor byr er mwyn i chi gymryd y camau i wella eich amgylchiadau.

### Sut ydw i'n ymgeisio am Daliad Dewisol Tai?

I gael eich ystyried, rhaid i chi lenwi'r ffurflen ynghlwm a'i hanfon at adran refeniw a budd-daliadau y Cyngor ynghyd â thystiolaeth ddogfennol ategol.

### Yr hyn sydd angen i mi ei ddweud wrthych?

Pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen, bydd angen i ni gael gwybod yn eich barn chi pam y dylech gael taliad ychwanegol at eich rhent, beth yw eich amgylchiadau, unrhyw gamau yr ydych wedi'u cymryd i helpu eich hun ac efallai unrhyw beth arall y credwch a fyddai yn ein helpu i wneud penderfyniad. Dylech ddarparu cymaint o fanylion â phosib er mwyn i ni ddeall eich sefyllfa yn llwyr.

Bydd angen i chi ddweud wrthym am yr holl arian sy'n dod i mewn i'ch cartref (incwm) a'r holl arian y byddwch yn ei dalu allan bob wythnos (gwariant) ac os yn bosibl dylech ddarparu cyfriflenni banc ar gyfer y ddau fis diwethaf.

Pan fyddwch wedi llenwi a dychwelyd y ffurflen byddwn yn ystyried pob agwedd o'ch amgylchiadau cyn penderfynu os y gallwn ddyfarnu taliad dewisol tai i chi. Efallai y byddwn yn dymuno ymweld â chi gartref neu ofyn i chi ddod i mewn i'r swyddfa i drafod eich cais ymhellach.

### Sut y bydd yr adran fudd-daliadau yn gwneud penderfyniad am Daliadau Dewisol Tai?

Byddwn yn ystyried pob cais wrth geisio sicrhau bod taliadau'n cael eu gwneud i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Nid oes rhestr o amgylchiadau a fydd yn eich gwneud yn gymwys yn awtomatig ar gyfer dyfarniad. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun, ond byddwch angen dangos bod nad oes gennych y modd eich hun i dalu'r diffyg yn eich rhent a'ch bod heb gymryd tenantiaeth nad oeddech yn gallu ei fforddio yn fwriadol. Lle bynnag y mae'n bosibl ac yn rhesymol i wneud hynny, bydd disgwyl i chi gymryd camau i wella eich amgylchiadau sydd wedi arwain at yr angen am daliad dewisol, er enghraifft - dod o hyd i lety mwy fforddiadwy.

### Ydw i'n gallu hawlio Taliadau Dewisol Tai i dalu am fy holl gostau tai?

Ni ellir dyrannu Taliadau Dewisol Tai ar gyfer y canlynol:

- Gwasanaeth neu daliadau cefnogaeth anghymwys (dwr, tanwydd, prydau bwyd ac ati)
- Unrhyw rent sy'n rhaid i chi dalu os nad ydych yn gymwys i Fudd-dal Tai
- Cynnydd yn eich rhent i dalu am ôl-ddyledion rhent
- Gostyngiadau mewn unrhyw fudd-dal o ganlyniad i gynhaliaeth plant, peidio â mynychu cyfweliad sy'n berthnasol i waith; sancsiynau cyflogaeth neu dorri gorchmynion gwasanaeth cymunedol
- Diffygion a achoswyd o ganlyniad i orfod adennill gordaliad Budd-dal Tai
- **I helpu i dalu eich Treth Cyngor neu unrhyw ôl-ddyledion i'r Cyngor**

## Nodiadau Arweiniol ar Daliad Dewisol Tai

### Faint o arian allai gael?

Bydd Taliadau Dewisol Tai yn cael eu talu yn ôl disgresiwn y Cyngor, ond ni allant fod yn fwy na'ch rhent wythnosol. Er enghraifft, os yw eich rhent cymwys yn £50.00 yr wythnos a bod eich hawl i Fudd-dal Tai yn £45.00, yr uchafswm Taliad Dewisol Tai y gallwch ei gael yw £5.00 yr wythnos. Mae Taliadau Dewisol Tai yn gyfyngedig bob blwyddyn. Os dyfarnir taliad, bydd yn para am gyfnod penodol o amser. Unwaith y bydd y cyfnod yn dod i ben gallwch wneud cais am ddyfarniad Taliad Dewisol Tai arall a bydd hyn yn cael ei ystyried. Gall newidiadau a riportwyd mewn amgylchiadau leihau neu ddod â'ch dyfarniad i ben yn gynnar, felly mae'n rhaid rhoi gwybod i'r Awdurdod Lleol am yr holl newidiadau wrth iddynt ddigwydd. Os dyfernir Taliad Dewisol Tai ac rydym yn darganfod yn nes ymlaen nad oes gennych hawl i'r taliad yma, byddwn yn gofyn i chi ddychwelyd yr arian.

### Beth os fyddwch chi'n gwrthod fy nghais?

Os bydd eich cais am Daliad Dewisol Tai yn cael ei droi i lawr a bod rhywbeth yn eich barn chi heb gael ei ystyried gennym neu ddim yn ymwybodol ohono; byddwn yn ailedrych ar ein penderfyniad eto os y byddwch yn ysgrifennu atom o fewn mis o'r dyddiad yr ydym yn rhoi gwybod i chi ein bod wedi gwrthod eich cais.

### Rwyf eisiau gwneud cais

Os ydych yn dymuno bwrw ymlaen â'ch cais am Daliadau Dewisol Tai, llenwch bob rhan o'r ffurflen gais hon a'i chyflwyno i Wasanaeth Refeniw a Budd-daliadau'r Cyngor.

### Newidiadau sy'n rhaid i chi ddweud wrthym amdanynt ar unwaith

Rhaid i chi ddweud wrth Wasanaeth Refeniw a Budd-daliadau'r Cyngor ar unwaith am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau sy'n effeithio arnoch chi, eich partner neu unrhyw un arall sy'n byw yn eich cartref. Er enghraifft:

- os y bydd unrhyw un o'ch plant yn gadael yr ysgol neu'r cartref
- os bydd unrhyw un yn symud i mewn neu allan o'ch cartref, gan gynnwys lletywyr, is-denantiaid a chyd-denantiaid
- eich incwm neu incwm unrhyw un sy'n byw gyda chi, gan gynnwys budd-daliadau, newidiadau
- newid i'ch cyfalaf neu'ch cynilion
- eich bod chi neu unrhyw un sy'n byw gyda chi yn dod yn fyfyriwr, yn mynd ar Gynllun Hyfforddi Ieuenctid, yn mynd i mewn i'r ysbyty neu gartref nyrsio, yn mynd i'r carchar, neu'n gadael neu newid cyflogaeth
- newidiadau i'ch rhent
- eich bod yn symud ty
- eich bod chi neu'ch partner yn mynd i fod yn absennol o'ch cartref dros dro
- eich bod chi neu unrhyw un sy'n byw gyda chi yn dechrau gweithio
- eich bod yn derbyn unrhyw benderfyniad gan y Swyddfa Gartref, neu
- unrhyw beth yr ydych wedi dweud wrthym am newidiadau

Os nad ydych yn dweud wrthym am unrhyw newidiadau, efallai y byddwch yn colli arian y mae gennych hawl iddo, neu eich bod yn derbyn gormod o arian. Mae'n rhaid i chi wneud yn siwr eich bod yn dweud wrthym am unrhyw newidiadau. Peidiwch â dibynnu ar rywun arall i basio'r neges ymlaen.

### Hysbysiad Preifatrwydd

Bydd Cyngor Sir y Fflint yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon, ac unrhyw dystiolaeth ategol y byddwch yn ei hanfon, i brosesu eich cais am Taliadau Dewisol Tai. Mae hyn yn ofynnol o dan reoliadau Cymorth Ariannol Dewisol. Caiff y wybodaeth hon ei chadw'n ddiogel ar ein system am gyfnod o 7 mlynedd ar ôl i'ch cais ddod i ben. Gall Cyngor Sir y Fflint drosglwyddo'r wybodaeth i asiantaethau neu sefydliadau eraill fel yr Adran Gwaith a Phensiynau a Chyllid a Thollau EM, fel y caniateir gan y gyfraith.

Efallai y bydd Cyngor Sir y Fflint yn cymharu'r wybodaeth rydych wedi'i darparu, neu wybodaeth amdanoch chi y mae rhywun arall wedi'i darparu, â gwybodaeth arall sydd gennym. Efallai y byddwn hefyd yn cael gwybodaeth amdanoch gan drydydd parti, neu yn rhoi gwybodaeth iddynt er mwyn:

- sicrhau bod yr wybodaeth yn gywir
- atal neu ganfod troseddau, ac
- diogelu arian cyhoeddus.

Efallai y byddai gwybodaeth a dderbynnir gan Gyllid a Thollau EM yn nodi newid mewn amgylchiadau a fyddai'n gallu arwain at y system yn newid eich buddion yn awtomatig.
Ni fydd Cyngor Sir y Fflint yn rhoi gwybodaeth amdanoch i unrhyw un arall, na'n defnyddio gwybodaeth amdanoch chi at ddibenion eraill, oni bai fod y gyfraith yn caniatáu hynny.

Mae prosesu eich data yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a wneir er lles y cyhoedd neu i ddefnyddio awdurdod swyddogol. Mae hefyd yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio gyda rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor.

Os ydych o'r farn bod Cyngor Sir y Fflint wedi cam-ddefnyddio eich data personol ar unrhyw adeg, gallwch anfon cwyn at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ymweld â'u gwefan neu drwy ffonio eu llinell gymorth ar 0303 123 1113.

I gael rhagor o wybodaeth am sut y mae Cyngor Sir y Fflint yn prosesu data personol a'ch hawliau, gweler yr hysbysiad preifatrwydd ar ein gwefan - http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Contact-Us/Privacy-Notice.aspx

# *Cais am Daliad Dewisol Tai – Costau Symud*

**Byddwch yn ymwybodol y bydd angen i chi ateb pob un o'r cwestiynau a'ch bod yn llenwi'r holl flychau er mwyn i ni allu asesu eich anghenion yn iawn. Rydym yn cynnal prosiect peilot ac mae'r wybodaeth a rowch ar y ffurflen hon yn ein galluogi i nodi os ydych angen gwasanaeth cynghori ac apwyntiad.**

## About you

Teitl

Cyfenw neu enw teulu

Enwau eraill

Dyddiad Geni

Cyfeiriad Presennol

Cod Post

Rhif Yswiriant Gwladol

Rhif Ffôn

Byddwn angen rhif ffôn i'ch cyfeirio at wasanaeth cynghori

Allwn ni adael neges ar y rhif hwn?

Na ☐

Gallwch ☐

Cyfeiriad e-bost

## Aelodau Eraill yn y Cartref / Dibynyddion

Aelodau Eraill yn y Cartref / Dibynyddion ☐

| Enw | Dyddiad Geni | Oedran | Perthynas i chi | Gweithio / derbyn budd-daliadau yn seiliedig ar incwm | Rhif Y.G. |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

## Ynglyn â'ch symud

1 Beth yw eich cyfeiriad newydd?

Cod Post

2 Faint o rent a godir arnoch chi yn eich cyfeiriad newydd?

Bob Mis Calendr

## Ynglyn â'ch symud *(parhâd)*

**3** Ydych chi wedi ceisio trafod rhent is gyda'ch Landlord? (Tenantiaid preifat yn unig) **Os felly**, beth oedd y canlyniad? **Os na**, pam ddim?

Na ☐
Do ☐

**4** Beth yw eich rhesymau dros symud eiddo?

**5** Rhowch enw, cyfeiriad ac amcanbris gan ddau gwmni symud:

**Cwmni Un,** Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post

Amcanbris:

**Cwmni Dau,** Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post

Amcanbris:

**6** Pwy sy'n derbyn y taliad Costau Symud?

Enw:

Cyfeiriad:

Cod Post

Rhif y Cyfrif Banc:

Cod Didoli:

**7** Unrhyw wybodaeth arall i gefnogi eich cais:

## Awdurdodi a gofod ychwanegol

**Ydych chi'n rhoi caniatâd i gael eich cyfeirio am apwyntiad cynghori ag unrhyw rai o'r canlynol?**
Bydd hyn yn golygu eich bod yn hapus i'r wybodaeth ar y ffurflen hon i gael ei rhannu gyda'n partneriaid er mwyn i chi allu cael y cyngor priodol.

Os **NAD YDYCH** yn dymuno cael eich cyfeirio at asiantaeth / adran arbennig nodwch hynny drwy roi croes yn y blwch **NAD YDYCH** wrth bob gwasanaeth i gael eich cyfeirio atynt.

| | |
|---|---|
| Cyngor ar Bopeth Sir y Fflint | ☐ |
| Hawliau Lles Cyngor Sir y Fflint | ☐ |
| Dewisiadau Tai Cyngor Sir y Fflint | ☐ |
| Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion Cyngor Sir y Fflint | ☐ |
| Adran Budd-daliadau Cyngor Sir y Fflint | ☐ |

**Defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni am unrhyw wybodaeth bellach ynglyn â symud neu'r wybodaeth yr ydych wedi'i ddarparu:**

**Rhaid llenwi a chyflwyno'r ffurflen gais cyn llofnodi'r dudalen hon.**

## Ar ôl i chi gyflwyno'r ffurflen data i ni, argraffwch y dudalen hon.

Enw'r Ymgeisydd

Cyfeiriad

Ein Cyfeirnod Cyflwyno:

Cod Post

Gall unrhyw wybodaeth ffug neu fethiant i ddatgelu gwybodaeth berthnasol arwain at erlyniad o dan y Deddfau Dwyn 1968 a 1978 neu Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1992.
**Mae'r wybodaeth a roddais yn wir ac yn gyflawn. Rwy'n awdurdodi'r awdurdod lleol i wirio'r wybodaeth os ydynt yn dewis gwneud hynny. Byddaf yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych os bydd unrhyw newidiadau yn fy amgylchiadau neu amgylchiadau fy aelwyd. Rwy'n deall na fydd fy nghais yn cael ei ystyried os nad wyf yn darparu'r holl wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdano.**

Bydd y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon yn cael ei ddefnyddio yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 at ddibenion penderfynu eich hawl i daliad dewisol tai.
Mae'n rhaid i ni warchod arian cyhoeddus y byddwn yn ei drin ac felly gallwn ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i ddarparu ar y ffurflen hon i atal a datgelu. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth, at yr un dibenion, gyda sefydliadau eraill sy'n ymdrin â chyllid cyhoeddus. Gall y wybodaeth hon hefyd fod ar gael i adrannau eraill o fewn y Cyngor.
Gellir defnyddio'r wybodaeth hefyd ar gyfer arolygon ystadegol, sy'n golygu efallai y byddwn yn pasio'r wybodaeth hon ymlaen, yn gyfrinachol, i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac asiantaethau sy'n gweithio ar ein rhan.

**PEIDIWCH AG OEDI WRTH DDYCHWELYD Y FFURFLEN HON; FEL ARALL EFALLAI Y BYDD EICH DYFARNIAD YN CAEL EI EFFEITHIO. RHAID I BOB YMGEISYDD LENWI'R CANLYNOL**

***Datganiad: Rwyf i / Rydym ni wedi darllen y datganiad a'r rhybudd uchod ac yn datgan hyd eithaf fy / ein gwybodaeth a'n cred, bod y wybodaeth ar y ffurflen hon yn unol â'r datganiad a'r rhybudd hynny.***

**Llofnod yr Ymgeisydd: Llofnod** **Dyddiad** **Llofnod y Partner Llofnod** **Dyddiad**

**Os nad y person sy'n hawlio'r budd-dal sydd wedi llenwi'r ffurflen hon, dywedwch pam rydych yn ei llenwi ar ei ran / rhan.**

Cyn belled ag y bo modd, rwy'n cadarnhau gyda'r sawl sy'n gwneud cais bod yr atebion rwyf wedi'u hysgrifennu ar y ffurflen hon yn gywir.

**Enw'r sawl wnaeth lenwi'r ffurflen**

**Llofnod**

**Dyddiad**

**Perthynas â'r sawl sy'n gwneud cais**

**Rhif ffôn dewisol** (yn ddefnyddiol os oes gennym ymholiad)

**Anfonwch y datganiad wedi'i argraffu a'i lofnodi at:**

**Os nad ydych wedi gallu argraffu'r datganiad hwn, ticiwch yma i roi gwybod i ni -** ☐

*Ref.* *E-Signing Enabled:* *Date of E-Signing:*

## *Datganiad*

## Datganiad

Enw'r Ymgeisydd

Cyfeiriad

Cod Post

Ein Cyfeirnod Cyflwyno:

Gall unrhyw wybodaeth ffug neu fethiant i ddatgelu gwybodaeth berthnasol arwain at erlyniad o dan y Deddfau Dwyn 1968 a 1978 neu Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1992.
**Mae'r wybodaeth a roddais yn wir ac yn gyflawn. Rwy'n awdurdodi'r awdurdod lleol i wirio'r wybodaeth os ydynt yn dewis gwneud hynny. Byddaf yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthych os bydd unrhyw newidiadau yn fy amgylchiadau neu amgylchiadau fy aelwyd. Rwy'n deall na fydd fy nghais yn cael ei ystyried os nad wyf yn darparu'r holl wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdano.**

Bydd y wybodaeth a roddwch ar y ffurflen hon yn cael ei ddefnyddio yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 at ddibenion penderfynu eich hawl i daliad dewisol tai.
Mae'n rhaid i ni warchod arian cyhoeddus y byddwn yn ei drin ac felly gallwn ddefnyddio'r wybodaeth rydych wedi'i ddarparu ar y ffurflen hon i atal a datgelu. Gallwn hefyd rannu'r wybodaeth, at yr un dibenion, gyda sefydliadau eraill sy'n ymdrin â chyllid cyhoeddus. Gall y wybodaeth hon fod ar gael i adrannau eraill hefyd o fewn y Cyngor.
Gellir defnyddio'r  wybodaeth hefyd ar gyfer arolygon ystadegol, sy'n golygu efallai y byddwn yn pasio'r wybodaeth hon ymlaen, yn gyfrinachol, i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac asiantaethau sy'n gweithio ar ein rhan.

**PEIDIWCH AG OEDI WRTH DDYCHWELYD Y FFURFLEN HON; FEL ARALL EFALLAI  Y BYDD EICH DYFARNIAD YN CAEL EI EFFEITHIO. RHAID I BOB YMGEISYDD LENWI'R CANLYNOL**

***Datganiad: Rwyf i / Rydym ni wedi darllen y datganiad a'r rhybudd uchod ac yn datgan hyd eithaf fy ngwybodaeth/ ein gwybodaeth a'n cred, bod y wybodaeth a ddangosir ar y ffurflen hon yn unol â'r datganiad a'r rhybudd hynny.***

**Llofnod yr Ymgeisydd: Cadarnhad** ☐ Dyddiad

**Llofnod y Partner Cadarnhad** *Os oes angen* ☐ Dyddiad

**Os nad y person sy'n hawlio'r budd-dal sydd wedi llenwi'r ffurflen hon, dywedwch pam rydych yn ei llenwi ar ei ran / rhan.**

**Enw'r sawl wnaeth lenwi'r ffurflen**

**Cadarnhad** ☐ Dyddiad

**Perthynas â'r sawl sy'n gwneud cais**

**Rhif ffôn**
Os yn bosibl (mae hyn yn ein helpu os oes gennym ymholiad)

## Fe ddylai bod gennych chi:

- Ffurflen gais wedi'i llenwi a'i chwblhau.
- Darllenwch a gwnewch yn siwr eich bod yn deall y dudalen datganiad cyn llenwi'r blychau ticio i gadarnhau'ch bod yn cytuno â'r datganiad.

**Rydych bellach ar ddiwedd y brif ffurflen. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, dylech nawr gyflwyno eich ffurflen wedi'i llenwi atom.**